


# Rôl yr Aren mewn Homeostasis - Bioleg yn unig


Mae'r **System Ysgarthu** yn tynnu wrea, cynnyrch gwastraff metabolaeth, ac yn rheoleiddio faint o ddŵr sydd yn y gwaed.



## Glanhau'r gwaed

- Mae gwaed o'r aorta yn symud i'r rhydveli arenol ac i'r aren.
- Mae'r aren yn hidlo'r gwaed ac yn cael gwared ar rywfaint o ddŵr, wrea a gormodedd o halwynau.
- Mae'r gwaed wedi'i lanhau yn dychwelyd i'r galon yn y vena cava.
- Mae'r hidlif o'r enw troeth yn gadael yr arenau yn yr wreterau ac yn cael ei storio yn y bledren.
- Mae'r troeth yn cael ei basio allan o'r corff trwy'r wrethra.

## Tu mewn i'r aren




Mae tua miliwn o neffronau ym mhob aren. Maen nhw'n hidlo'r gwaed.

## Canfod clefydau

- Mae celloedd coch y gwaed mewn troeth yn dangos niwed i'r arenau neu glefyd.
- Gall glwcos yn y troeth ddangos diabetes.

## Y Neffron - Haen uwch yn unig




## Methiant yr Arenau

Triniaethau	Manteision	Anfanteision
<b>Dialysis</b>	Ar gael yn syth.	Treulio amser hir yn yr ysbyty yn sownd i beiriant dialysis bob wythnos, ac mae'r deiet yn gyfyngedig.
<b>Trawsblaniad</b>	Gall bara am 12-15 mlynedd gydag ychydig iawn o ymyriad meddygol.	Rhaid cymryd cyffuriau <b>gwrthimiwnedd i osgoi cael ei wrthod</b> . <b>Rhaid dod o hyd i roddwr</b> a rhaid bod ganddo <b>fath tebyg o feinwe</b> i'r derbyniwr, felly mae'n well cael rhoddwr sy'n perthyn yn agos.

**Sut mae dialysis yn gweithio - Haen uwch yn unig** - Mae gwaed yn cael ei dynnu o'r corff ac yn llifo trwy diwb wedi'i wneud o bilen athraidd ddetholus.


Mae hylif dialysis yn cynnwys yr un faint o grynodiad glwcos a halwynau na ddylid eu tynnu o'r gwaed. Nid yw'n cynnwys wrea ac felly bydd wrea yn tryledu o grynodiad uchel yn y gwaed allan i'r hylif dialysis sydd wedyn yn cael ei waredu.



Bydd hylif dialysis a gwaed yn llifo'n wrthgerrynt er mwyn cynnal graddiant crynodiad i dryledu wrea ar draws yr holl bilen.

## Rheoli dŵr yn y gwaed gan hormon Gwrthddiwretig (ADH)

Mae'r ymennydd yn monitro faint o ddŵr sydd yn y gwaed fel y dangosir isod:



Mae'r broses hon yn gweithredu drwy adborth negatif.